# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, S.D. Perkes a K.P. Mahoney.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J.E. Charles ac E. Penn.

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.C. Hamilton, S.M. Hanks a J. Protheroe.

COFNODION –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2024 fel cofnod cywir.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Dywedodd y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, Dr. I.J. Johnson, S.D. Perkes ac NC. Thomas, mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar yr Agenda – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025/25 – ei fod yn cael ei nodi eu bod yn derbyn Lwfans Cyflog Uwch, gyda'r datganiad yn cael ei wneud at ddibenion tryloywder yn unig.

PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26 – ADRODDIAD YMGYNGHORI AC ATODOL ADOLYGIAD O GYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU LLEYG CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CJCS) (PGD) –

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a

oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) ar gyfer 2025/26 a'i adroddiad adolygu atodol o'r taliadau cydnabyddiaeth i aelodau lleyg o Gydbwyllgorau Corfforaethol (CBCau). Yn unol â gofynion Adran 147 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, roedd yn ofynnol i PACGA gyhoeddi Adroddiad Blynyddol, a fyddai'n cael effaith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Roedd unrhyw sylwadau ar Adroddiad Blynyddol drafft PACGA a'r adroddiad atodol ar CBCau i'w cyflwyno i Ysgrifenyddiaeth PACGA erbyn 29 Tachwedd 2024 fan pellaf. Gall unrhyw Aelod hepgor y cyfan neu ran o'i hawl mewn unrhyw flwyddyn drwy hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig. Roedd Atodiad C yr adroddiad wedi'i baratoi fel ymateb i'r penderfyniadau ar gyfer ystyriaeth a / neu gymeradwyaeth y Pwyllgor.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd fod yr holl benderfyniadau eraill a wnaed yn flaenorol gan y panel nad oeddent wedi'u cynnwys yn y drafft hwn yn dal i fodoli. Yn ogystal, rhoddwyd cyd-destun pellach gan nodi bod y Panel yn dweud ei fod yn credu bod lefelau taliadau cydnabyddiaeth teg a rhesymol yn hanfodol i ddemocratiaeth leol ac felly roedd wedi parhau i alinio lefelau taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun enillion cyfartalog Cymru drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ABOE) yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel y prif feincnod ar gyfer gosod taliadau cydnabyddiaeth. Nodwyd hefyd bod adroddiad PACGA hefyd wedi'i ddosbarthu i holl Aelodau o'r Cyngor, gan gynnwys Aelodau Cyfetholedig ac Aelodau Lleyg, a oedd i gyd wedi cael cyfle i wneud eu hargymhellion ychwanegol eu hunain.

Yna trafodwyd penderfyniadau fel a ganlyn- :

(1) **Penderfyniad 1** - Gosodwyd lefel sylfaenol cyflog Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau ar £19,771, cynnydd o 6% o 2023/24 (yn unol â data'r ABOE) –

Gofynnodd y Cynghorydd Thomas a oedd y Cyngor mewn sefyllfa i wybod a oedd ymatebion unigol wedi'u gwneud i PACGA gan Gynghorwyr, dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd nad oedd y wybodaeth hon ar gael. Pwysleisiodd y Cynghorydd Thomas fod y penderfyniadau yn unol â data cenedlaethol, a derbyniodd fod y newidiadau cyflog yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed yn genedlaethol a dywedodd ei fod yn cefnogi'r argymhelliad. Nododd y Cynghorydd Carroll nad oedd yn cefnogi'r argymhellion a'i fod yn credu eu bod yn amhriodol gan fyfyrio ar y sefyllfa yr oedd y cyhoedd yn ei hwynebu, o ran y cynnydd uwch na chwyddiant arfaethedig. Dywedodd y Cynghorydd Perkes gan gytuno â sylwadau'r Cynghorydd Thomas, ar sail cyfartaledd cenedlaethol Cymru ar gyfer lefel y gwaith, fod angen cynnydd er mwyn parhau i annog pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth.

Gofynnodd y Cynghorydd Bruce a oedd y taliadau cydnabyddiaeth yn seiliedig ar wythnos 3 diwrnod ac roedd am ddeall a oedd tystiolaeth o ran maint y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Gynghorwyr. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson fod PACGA yn adolygu hyn yn aml a'i fod wedi dod i'r casgliad bod gwaith Cynghorydd yn seiliedig ar 60% o'r hyn a wnaeth gweithiwr cyffredin. Gofynnodd y Cynghorydd Bruce a oedd modd gofyn i Gynghorwyr ynghylch

maint eu gwaith, ac ymatebodd y Cynghorydd Dr. Johnson gan ddweud bod y Panel yn cynnal arolygon a grwpiau ffocws i ganfod y wybodaeth hon.

Cytunwyd wedyn i dderbyn yr ymateb yn Atodiad C yr adroddiad.

(2) **Penderfyniad 2** - Cyflog Arweinydd y Cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £74,141.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor, gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(3) **Penderfyniad 3** - Cyflog cadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £9,886. Cyflog yr is-gadeirydd fydd £4,943.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(4) **Penderfyniad 4** - Mae cyflog sylfaenol aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub wedi cynyddu. Mae'r holl daliadau wedi'u nodi yn Nhabl 2. Bydd yr holl Benderfyniadau cyfredol, gan gynnwys cyfyngiadau ar dderbyn lwfansau dwbl, yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Heblaw am y cynnydd uchod, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig eleni.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(5) **Penderfyniad 5** - Ar gyfer taliadau aelodau cyfetholedig, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod llawn neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol i gydgrynhoi nifer o gyfarfodydd byr. Nid yw cyfraddau diwrnod llawn a hanner diwrnod 2024 yn newid yn 2025. Yr unig newid yw pennu cyfraddau fesul awr, fel y nodir yn Nhabl 3.

Dywedodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd y nodwyd mewn cyfarfod diweddar o Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd yng Nghymru lle'r oedd cynrychiolydd o PACGA yn bresennol nad oedd taliadau i aelodau cyfetholedig ac aelodau lleyg wedi cynyddu ers peth amser. Cyfeiriwyd hefyd at y cynnydd mewn cyfrifoldebau ar gyfer aelodau cyfetholedig a lleyg o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y disgwyliadau ar Aelodau Lleyg yn uchel gan ddweud eu bod yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol, ac o'r herwydd roedd angen unigolion medrus iawn a ddylent gael tâl cydnabyddiaeth i adlewyrchu hyn. Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson hefyd fod y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan aelodau cyfetholedig a lleyg wrth gyfrannu at y Cyngor yn bwysig ac y dylid cymhwyso cyfradd addas gan ystyried y rôl. Dywedodd y Cynghorydd Perkes mewn ymateb ei bod yn cefnogi barn y Cynghorydd Thomas a'r Cynghorydd Dr. Johnson.

(6) **Penderfyniad 6** - Bydd aelodau lleyg cyfetholedig o Gydbwyllgor Corfforaethol (CBC) yn cael eu talu ar yr un sail ag aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio cyrff eraill o fewn y teulu llywodraeth leol, fel y nodir yn Nhabl 4.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(7) **Penderfyniad 7** - Bydd aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref yn cael eu talu £156 y flwyddyn (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwresogi, goleuo, pŵer a band eang) gweithio gartref. Ac mae'n rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sy'n ofynnol i gyflawni eu rôl, neu fel arall mae’n rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost eu nwyddau traul swyddfa.

Dywedodd y Cynghorydd Dr. Johnson wrth gyfeirio at y ffaith bod sawl Aelod o'r Pwyllgor hefyd yn Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned y gallent ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau pellach gan y Pwyllgor o ran yr ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(8) **Penderfyniad 8** - Mae iawndal am golled ariannol yn daliad dewisol.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau pellach gan y Pwyllgor gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

(9) **Penderfyniad 9** - Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, fod angen i'r ffurflenni ddangos dim ond cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllwyd uchod. Dyna'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref a'r lwfans nwyddau traul cyfradd sefydlog o £52 a'r costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd. Mae hyn yn dod â'r rhain yn unol ag adrodd costau gofal a lwfansau cymorth personol.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau pellach gan y Pwyllgor gyda'r ymateb fel oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad C yr adroddiad yn cael ei gytuno.

Er nad yn fater i’w benderfynu dan yr ymgynghoriad, tynnodd y Cynghorydd Penn (nid Aelod o'r Pwyllgor ond gyda chaniatâd i siarad) sylw at y ffaith bod ad-dalu costau gofal a gofal plant yn destun treth gan CThEF. Dywedodd y Cynghorydd Penn ei fod o'r farn bod hyn yn annheg ar yr Aelodau a allai geisio ad-daliad am gyfrifoldebau o'r fath. Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y sylwadau yn yr ymateb i’r ymgynghoriad i PACGA.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynigion Adroddiad Blynyddol drafft PACGA ar gyfer 2025/26 a'i Adroddiad Atodol ar Adolygu Taliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer Aelodau Lleyg o

CBCau yn cael eu nodi.

(2) BOD yr ymatebion drafft i Benderfyniadau PACGA fel y nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol -

- Penderfyniad 5 – Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan Aelodau Cyfetholedig a Lleyg wrth gyfrannu at waith y Cyngor ac y dylid cymhwyso lwfans addas gan ystyried cyfrifoldebau'r rolau.

- Bod y Pwyllgor o'r farn na ddylai ad-dalu costau gofal a gofal plant fod yn destun treth gan ei fod yn cael effaith niweidiol ar yr Aelodau hynny a allai geisio ad-daliad am gyfrifoldebau o'r fath.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Wedi ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod ac er mwyn i'r sylwadau gael eu cyflwyno ar ran y Cyngor erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad sef 29 Tachwedd 2024.